**COFNODION** **EOC-08-02 (cof)**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** 12 Rhagfyr 2002

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

Aelodau Ann Jones (Cadeirydd) Dyffryn Clwyd

David Melding Canol De Cymru

Lorraine Barrett De Caerdydd a Phenarth

Eleanor Burnham Gogledd Cymru

Carwyn Jones Pen-y-bont ar Ogwr

Helen Mary Jones Llanelli

Huw Lewis Merthyr Tudful a Rhymni

Val Lloyd Dwyrain Abertawe

Peter Rogers Gogledd Cymru

Janet Ryder Gogledd Cymru

Owen John Thomas Canol De Cymru Swyddogion
Peter Gregory Grwp Gwasanaethau Personél ac Adeiladau Gwahoddedigion
Sefydlog
Will Bee Comisiwn Hawliau Anabledd
Kate Bennett Comisiwn Cyfle Cyfartal
Cherry Short Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Derek Walker Fforwm Bwrdd Llywodraeth Leol Cymru

| | |
|---|---|
| Neil Wooding | Comisiwn Cyfle Cyfartal Gwahoddedigion |
| Roger McKenzie | TUC |
| Rhys Dafis | Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Angharad Davies | Coalisiwn Cenedlaethol Menywod Cymru |
| Mary Slater | Coalisiwn Cenedlaethol Menywod Cymru (WWNC) |
| Joyce Watson | Coalisiwn Cenedlaethol Menywod Cymru |
| Ian Cairns | Cyngor Sir Gwlad yr Haf |
| Bill Crumpton | Cyngor Sir Caerdydd |
| Frank Milne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfyrddin Ysgrifenyddiaeth |
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**9.00 - 9.05am**

**Eitem 1**

**Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd newydd bawb i'r cyfarfod. Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Helen Mary Jones AC a Peter Rogers AC.

**9.05 - 9.10am**

**Eitem 2 Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: EOC 08-02(p1)**

1. Croesawodd y Gweinidog Ann Jones fel Cadeirydd newydd y pwyllgor. Nid oedd unrhyw ychwanegiadau llafar i'w adroddiad ysgrifenedig.
2. Roedd llawer o staff ar lefel uwch wedi bod i'r seminar cyflog cyfartal ar gyfer personél y GIG gyda 13 allan o 15 Ymddiriedolaeth y GIG yn cael eu cynrychioli, a chroesawyd presenoldeb gweinidogion mewn digwyddiadau cyflog cyfartal. Roedd dyddiadau bellach wedi'u pennu ar gyfer seminarau ar gyfer y sectorau llywodraeth leol ac addysg.

**9.10 – 9.35**

**Eitem 3 Gweithredu'r Adroddiad 'Codi Pob Llais'**

**Papur: EOC 08-02(p2)**

1. Rhoddodd Roger McKenzie ei asesiad gerbron y pwyllgor o'r ffordd yr oedd ei adroddiad ‘Codi Pob Llais’ wedi'i weithredu hyd yma:-

2. Roedd 18 o'r 43 argymhelliad yn yr adroddiad wedi cael eu rhoi ar waith, ac roedd eraill ar y gweill.
3. Dylid llongyfarch y Cynulliad, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol a'r pwyllgor Cyfle Cyfartal am weithredu'r argymhellion ac archwilio cynnydd.
4. Roedd aelodau o'r gymuned wedi dod at Roger McKenzie am fod ganddynt bryderon am y broses a ddefnyddiwyd i recriwtio pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yn enwedig defnyddio CVs a phrofion seicometrig a chost hynny. Roedd y farn gyhoeddus hon yn tynnu sylw at y ffaith bod angen parhau i feithrin ymddiriedaeth ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig a'u sicrhau bod newidiadau ar droed ac y gallent ymuno â'r sefydliad a bod yn llwyddiannus.
5. Roedd hyfforddiant yn holl bwysig os am weld newid diwylliannol a chroesawyd y cynnydd hyd yma. Rhaid hyfforddi cymaint â phosib o staff ac aelodau'r Cynulliad er mwyn gweld sut mae eu rôl wedi helpu i alluogi'r Cynulliad i gyflawni ei swyddogaethau dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.
6. Roedd cael cystadleuaeth agored ar gyfer swyddi yn holl bwysig ond byddai rhai staff yn wynebu anawsterau ymarferol wrth dderbyn hynny ac roedd cwestiynau'n cael eu gofyn ar draws y Gwasanaeth Sifil ynghylch ymwrthod â'r arferion presennol.
7. Roedd y gwaith o godi pontydd rhwng y Cynulliad a chymunedau lleiafrifoedd ethnig yn broses ddwy ffordd. Roedd y Gweinidog yn teimlo ei bod yn bwysig ei fod yn mynd i gwrdd ag aelodau o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig ar eu tir eu hunain. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu ymgyrch ragweithiol, a oedd yn golygu defnyddio gweithwyr maes, er mwyn recriwtio o blith cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn 2003.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Rhoi manylion gwaith maes y Cynulliad a gweithgareddau eraill i feithrin ymddiriedaeth y grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.
- Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, byddai'r pwyllgor yn cael rhagor o wybodaeth am broses recriwtio'r Uned Polisi Cydraddoldeb.

**9.35 – 9.55**

**Eitem 4 Adroddiad ar yr ymarfer recriwtio allanol peilot**

**Papur: EOC 08-02(p3)**

1. Rhoddodd Peter Gregory, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Personél ac Adeiladau'r Cynulliad, wybodaeth i'r pwyllgor am yr asesiad o'r ymarfer recriwtio allanol peilot ar gyfer gweision sifil Gradd 7. Roedd yr ymarfer hwn wedi bod yn ffordd o brofi'r gwaith o weithredu'r argymhellion yn ‘Codi Pob Llais’.
2. Roedd ymgynghorwyr allanol wedi adolygu'r ymarfer recriwtio ac wedi dod i'r farn ei fod wedi bod yn llwyddiant, ar y cyfan: roedd ymgeiswyr wedi teimlo'n gyfforddus yn ystod y

broses, roedd wedi cael ei gynnal o fewn amser rhesymol ac roedd 28 o swyddi wedi'u llenwi. Gwnaed deugain o argymhellion i wella manylion y broses.

3. Bu rhai problemau o ran gweinyddu'r ymarfer ac nid oedd wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth geisio cyrraedd pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd du ac ethnig, nac wrth ddenu digon o ymgeiswyr a oedd yn siarad Cymraeg. Efallai mai am fod y swyddi wedi'u lleoli yng Nghaerdydd y cododd yr ail bwynt. Roedd bwriad i gynnal ymarferion recriwtio yn gynnar yn 2003 ar gyfer swyddi yn y Canolbarth, y Gorllewin a'r Gogledd.
4. Roedd yn bwysig hyfforddi aseswyr er mwyn ennyn hyder a gwneud yn siwr bod cyn lleied o risg â phosib o oddrychedd. Pe bai strategaeth recriwtio newydd arfaethedig y Cynulliad yn cael ei mabwysiadu, byddai angen mwy o hyfforddiant er mwyn meithrin gallu o fewn y Cynulliad.
5. Nodwyd bod ymgeiswyr mewnol wedi bod yn fwy llwyddiannus nag ymgeiswyr allanol. O ddadansoddi'r ffigurau, byddai modd gweld a oedd hyn yn deillio o'r ffaith bod canran is o ymgeiswyr allanol wedi gwneud cais, neu am eu bod ar y cyfan yn llai llwyddiannus, a byddai modd cadw llygad ar hyn yn y dyfodol. Nodwyd hefyd bod llawer o'r swyddi yn yr ymarfer hwn yn cael eu llenwi gan bobl ar radd is a oedd yn gwneud gwaith ar lefel uwch ac mae'n bosibl fod hyn wedi effeithio ar nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus.
6. Cydnabuwyd bod y broses wedi cymryd amser hir, o leiaf 3-4 mis, ac y byddai modd cwtogi ar hyn. Nodwyd bod negodi cyflogau yn cymryd amser.
7. Er mwyn annog pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i wneud cais, awgrymwyd y dylai'r Cynulliad weithio gydag awdurdodau lleol a datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau hyfforddi sydd eisoes yn gweithio gyda chymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, megis canolfan hyfforddiant a menter Cyngor Sir Caerdydd.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Darparu ffigurau'n dangos nifer a chanran yr: ymgeiswyr mewnol ac allanol a'r ymgeiswyr llwyddiannus;ymgeiswyr o blith grwpiau dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r ymgeiswyr llwyddiannus;ymgeiswyr gwrywaidd/benywaidd a'r ymgeiswyr llwyddiannus; ac ymgeiswyr gydag anabledd a'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Ar gyfer yr ymarfer recriwtio G7 ac ymarferion recriwtio eraill lle mae ffigurau ar gael.

**9.55 – 10.15**

**Eitem 5 Adroddiad ar aelodau o fyrddau'r GIG sy'n siarad Cymraeg**

**Papur: EOC 08-02(p4)**

1. Rhoddodd Rhys Dafis o Fwrdd yr Iaith Gymraeg wybod i'r pwyllgor pa gamau y dylid eu cymryd i gynyddu nifer yr aelodau o fyrddau'r GIG sy'n siarad Cymraeg.
2. Y brif neges oedd y dylid prif ffrydio iaith fel rhan o waith y Cynulliad ar gydraddoldeb.

3. Nid oedd system ar gyfer gwneud proffilio ieithyddol yn rhan o'r broses recriwtio fel yr oedd proffilio'n cael ei wneud ar gyfer sgiliau a chefndiroedd eraill. Dylai iaith gael ei rhestru fel maen prawf i'w chynnwys yn y cod ymarfer ar gyfer y rheini sy'n mynychu digwyddiadau cyhoeddus, ac yng nghynllun gweithredu'r Cynulliad ar gyfer ymgorffori cydraddoldeb ym maes penodiadau cyhoeddus.
4. Byddai rhestru iaith ochr yn ochr ag agweddau eraill ar gyfle cyfartal megis hil a rhyw yn gyson â'r Ddeddf Hawliau Dynol a siarter yr UE ar gyfer ieithoedd lleiafrifol.
5. Dylai unrhyw system benodi sicrhau bod yr elfen ieithyddol yn cael ystyriaeth ymhlith y sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol i ddatblygu tîm aml-sgil.
6. Efallai y bydd angen ymgyrchoedd penodol mewn rhai ardaloedd megis Gorllewin Cymru lle nad oes digon o siaradwyr Cymraeg, o bell ffordd, ar fyrddau'r GIG.
7. Roedd yn bwysig pwysleisio nad oedd cael siaradwyr Cymraeg ar fwrdd yn golygu o reidrwydd y byddai siaradwyr Cymraeg yn cael gwell gwasanaeth yn lleol. Waeth beth fo iaith yr aelodau, rhaid i fyrddau ddangos eu bod yn deall anghenion siaradwyr Cymraeg a'u bod yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
8. Nid oedd cefnogaeth i gyflwyno cwotâu, yn enwedig gan fod gan rai ardaloedd nifer fach o siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, ond gellid defnyddio proffilio er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr dwyieithog da yn gwneud cais.
9. Nid oedd y Cynulliad mewn sefyllfa i fynnu bod cyrff allanol yn derbyn ei argymhellion, ond byddai'n eu hannog i wneud hynny.

Pwynt Gweithredu:

- Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd yn gofyn am adroddiad yn dadansoddi'r ffordd y caiff pobl eu penodi i'r byrddau iechyd lleol newydd, i weld a yw'r Byrddau, ar y cyfan, yn cynrychioli'r gymuned leol, ac yn arbennig a ydynt yn cynnwys nifer cymesur o siaradwyr Cymraeg.

**10.15 – 10.55**

**Eitem 6 Cyflwyniad gan Goalisiwn Cenedlaethol Menywod Cymru (WWNC)**

1. Rhoddodd Angharad Davies, Cadeirydd y WWNC; Mary Slater, rheolwr y coalisiwn; a Joyce Watson, gweithiwr maes, gyflwyniad ar waith y WWNC, yn arbennig penodiadau cyhoeddus. Dyma oedd y prif bwyntiau a godwyd:
2. Cryfder y WWNC oedd amrywiaeth y cyrff a oedd yn aelodau, a oedd yn cynrychioli agendâu gwahanol ac yn rhoi sylw i'r holl sbectrwm gwleidyddol.
3. Roedd y WWNC yn canolbwyntio ar benodiadau cyhoeddus i roi gwell llais i fenywod yng Nghymru wrth benderfynu ar bolisi. Maent o fewn cyrraedd miloedd o fenywod sydd â llawer i'w gynnig i fywyd cyhoeddus yng Nghymru.
4. Nid oedd unrhyw ystadegau newydd ar gael o ran nifer y menywod ar gyrff cyhoeddus, ond roedd tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod ffactorau a oedd yn rhwystro eu penodi.

Ymhlith y problemau cyffredin roedd diffyg hyder a theimlad o fraw, (ymhlith yr enghreifftiau roedd defnyddio paneli cyfweld o 6-8 o bobl, a defnyddio iaith dechnegol neu jargon). Nid oedd digon o ymdrech yn cael ei gwneud i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiad menywod ac i ddarparu hyfforddiant cynefino.

5. Awgrymwyd sawl gwelliant gan gynnwys ffurflen gais wedi'i chynllunio'n well; a gwell hyfforddiant a mentora. Awgrymwyd ffyrdd eraill o hysbysebu swyddi ac chael rhagor o geisiadau gan gynnwys ymweld â fforymau cymunedol lleol menywod er mwyn darparu gwybodaeth; rhoi hysbysebion yng nghylchlythyron y cyrff hynny sy'n aelodau o'r WWNC. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus, am ei fod yn helpu i ysgogi pobl i wneud cais am swydd arall yn y dyfodol.
6. Roedd digwyddiad o'r enw 'Blowing Our Own Trumpets'yn cael ei drefnu ar y cyd ag Uned Polisi Cydraddoldeb y GIG ar gyfer y Diwrnod Rhyngwladol Menywod ym mis Mawrth 2003 yn Theatr Breheiniog, Aberhonddu.
7. Roedd sefydliadau eraill o fewn y DU hefyd yn ystyried gweithgareddau hyfforddi, cysgodi a mentora er mwyn annog pobl i ymgymryd â swyddi cyhoeddus mewn gwahanol sectorau. Roedd y WWNC yn gobeithio y byddai modd cynnal rhagor o weithgareddau gyda mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol yng Nghymru a'r Cynulliad, ac awgrymodd y gallai Grwp Gorchwyl a Gorffen helpu i gydlynu gweithgareddau o'r fath.
8. Byddai ar y WWNC angen rhagor o gyllid i gynnal digwyddiadau a seminarau ar benodiadau cyhoeddus. Roedd y £50,000 yr oedd wedi'i dderbyn gan y Cynulliad wedi dod i ben ym Mehefin 2004 ac roedd wedi'i ddefnyddio'n bennaf i dalu cyflogau staff rhan-amser.
9. Roedd y WWNC yn gwneud gwaith maes ledled Cymru gyda sefydliadau eraill megis y Fforwm Lesbiaid, Hoywon a'r Deurywiol, Cymorth i Fenywod a Menywod mewn grwpiau Iechyd. Mae gwaith gydag Awdurdod Heddlu Dyfed Powys wedi arwain at fwy o geisiadau gan fenywod - ailddrafftiwyd eu hysbyseb recriwtio a ffurfiwyd cysylltiadau llwyddiannus rhyngddynt a grwpiau lleol.
10. Cafwyd trafodaeth ynghylch cadw cofrestr o ymgeiswyr sydd ar gael ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Roedd hyn yn dirwyn i ben yn Lloegr ond roedd yn un ffordd o storio rhagor o wybodaeth am y bobl sydd ar gael.
11. Canmolodd y pwyllgor waith y WWNC ar benodiadau cyhoeddus. Byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth am ganlyniadau ei waith hyd yn hyn ac yn ystyried y mater eto yn un o'i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Pwynt Gweithredu:

- Y WWNC i ddarparu rhai awgrymiadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol er mwyn annog menywod i gymryd swyddi cyhoeddus sy'n seiliedig ar y gwaith maen nhw wedi'i wneud hyd yn hyn.

**Penderfynodd y pwyllgor gymryd egwyl tan 11.10**

**11.10 – 11.35**

**Eitem 7 Ystyried adroddiad blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

1. Soniodd Kate Bennett a Neil Wooding, Comisiynydd Cyfle Cyfartal Cymru wrth y pwyllgor am waith y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC) dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma oedd y prif bwyntiau a godwyd yn ystod y cyflwyniad a'r drafodaeth:
2. Roedd Neil Wooding yn cydnabod gwaith pwysig ei ragflaenwr dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn arwyddocaol bod Comisiwn Cyfle Cyfartal y DU yn ystyried sut y gallai fabwysiadu gwaith a oedd wedi cael ei gychwyn gan Gomisiwn Cyfle Cyfartal Cymru.
3. Dangoswyd llawer o ddiddordeb yn effaith dyletswydd y Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal ac yng ngoblygiadau'r adroddiad 'An Absolute Duty'.
4. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn canolbwyntio ar gydraddoldeb yn y gweithle, gyda themâ allweddol a oedd yn cynnwys cyflog cyfartal, trefniadau gweithio hyblyg, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a hyrwyddo cydraddoldeb fel achos busnes da, gan arwain at sefydliadau iachach. Roedd hyrwyddo cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer dynion yn fater a oedd yn cael cryn sylw ar hyn o bryd. Roedd arolwg wedi dangos bod y rhan fwyaf o fenywod yn fodlon gyda threfniadau gweithio hyblyg ond i bob golwg nid oedd dynion yn cymryd mantais ar y cyfle cyfartal i fanteisio ar y trefniadau hynny, ac roedd angen anogaeth arnynt. Roedd gan ddynion rôl hefyd wrth annog eraill i fanteisio ar drefniadau gweithio hyblyg.
5. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn awyddus i ddatblygu gwaith ar gydraddoldeb mewn bywyd cyhoeddus. Dylai mwy o fenywod gael eu gweld mewn llywodraeth leol, ac roedd yn llwybr pwysig i lywodraeth ganolog a chenedlaethol.
6. Roedd y cyfryngau wedi dangos llawer o ddiddordeb yn yr ymgyrch dros gyflog cyfartal a gynhaliwyd ar y cyd gyda'r Cynulliad a TUC Cymru, a'r gobaith oedd y byddai'r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn ailystyried eu strwythurau cyflogau o ganlyniad. Roedd yr is-grwp ar gyflog cyfartal wedi cyfarfod y diwrnod cyn hynny i ystyried rhagor o waith ymgyrchu, yn enwedig gyda'r sector preifat. Gobeithiwyd y byddai'r Cynulliad yn parhau i gefnogi'r ymgyrch. Canmolodd y pwyllgor waith Sue Dye o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn rhoi gweithgareddau'r ymgyrch ar waith ac yn darparu arbenigedd.
7. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn gweithio ar y cyd â'r Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar ymchwil a oedd yn dangos diffyg mynediad i wasanaethau cynghori ar wahaniaethu. Nid oedd digon o lefydd i fynd iddynt na phobl a oedd wedi arbenigo mewn cyfraith gyflogaeth arbenigol, ac roedd hyn yn rhannol gysylltiedig â'r amgylchedd gwledig. Nid oedd Cyngor ar Bopeth bob amser ar agor nac yn ddigon arbenigol a dim ond un canolfan gyfreithiol oedd yng Nghymru. Byddai adroddiad yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2003 er mwyn gweld sut ellid mynd i'r afael â'r diffyg cyngor yng Nghymru. Ar hyn o bryd, Cyngor ar Bopeth a'r Undebau Llafur oedd y prif ddarparwyr ond roedd llai o achosion gwahaniaethu wedi'u hennill yng Nghymru a rhan o'r rheswm am hyn oedd ei bod yn anos dod o hyd i gyngor a rhywun i'ch cynrychioli. Roedd menywod a oedd yn gweithio'n rhan-amser, heb fod yn perthyn i undeb, yn cael eu cosbi ddwywaith. Cytunwyd bod angen mwy o gyllid ar

Cyngor ar Bopeth ac y dylai gwasanaethau cynghori awdurdodau lleol gael eu cryfhau. Roedd angen i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal hefyd weithio'n fwy effeithiol er mwyn trosglwyddo ei arbenigedd i'r rhai sy'n darparu cyngor.

8. Roedd angen llawer mwy o waith er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pobl iau ac i annog cyflogwyr i chwilio am staff mewn mannau newydd.
9. Trafodwyd gwahaniaethu yn erbyn menywod o ran y ffordd y caiff problemau iechyd eu canfod a'u trin, ac y gallai cymhwyso modelau gwrywaidd o iechyd fod yn un rheswm am hynny.
10. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn falch o weld bod y Fforwm Lesbiaid, Hoywon a'r Deurywiol yn cael ei ariannu gan y Cynulliad a'i gynrychioli yn y pwyllgor. Mynegodd y Fforwm LGB ei ddiolch i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal am gefnogi ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf.
11. Byddai'n holl bwysig cymryd rhan yn y broses ymgynghori ar gyfer creu Un Corff Cydraddoldeb ac roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn gobeithio trefnu digwyddiad ym mis Ionawr. Roedd disgwyl i Barbara Roche AS a'r Gweinidog dros Lywodraeth Agored gynnal digwyddiadau mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn. Dylid rhoi ystyriaeth i ffactorau a oedd yn unigryw i Gymru, megis yr iaith a'r ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal. Roedd angen i'r corff ar lefel y DU gael digon o adnoddau, gyda swyddogaeth clir a phwerau cryf, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau Cymru'n cael sylw. Dylid cynnwys cysylltiadau mwy ffurfiol â'r Cynulliad yn y strwythur a dylai comisiynwyr gael eu penodi ar y cyd gan y Cynulliad yn hytrach nag ar lefel y DU yn unig. Rhaid i unrhyw gangen Gymreig o'r Corff Cydraddoldeb gael pwerau cryf i ddilyn ei agenda ei hun.
12. Nododd y Gweinidog fod y berthynas anffurfiol rhwng y Comisiynwyr a'r Cynulliad yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, ond byddai'n dda cael perthynas fwy ffurfiol, er na ellid darparu hynny ond drwy statud.
13. Diolchodd y pwyllgor i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal am ei waith a chanmolwyd y Comisiwn am adroddiad blynyddol a oedd yn ddeniadol ac yn ddarllenadwy iawn yn y ddwy iaith ac a oedd wedi denu cryn sylw gan y cyfryngau o'r herwydd.

**<u>11.35 – 12.10</u>**

**Eitem 8 Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Safleoedd**

1. Rhoddwyd tystiolaeth i'r adolygiad gan Bill Crumpton, rheolwr safleoedd Cyngor Sir Caerdydd, Ian Cairns, Swyddog Cysylltiadau Sipsiwn Cyngor Sir Gwlad yr Haf a Frank Milne, Rheolwr Gwasanaethau Crwydriaid Cyngor Sir Caerfyrddin.
2. Dyma brif bwyntiau cyflwyniad Bill Crumpton:

- Roedd y ddau safle preswyl yr oedd yn eu rheoli yng Nghaerdydd yn wahanol iawn. Roedd Shire Newton tua 10 mlwydd oed. Roedd 56 o safleoedd i deuluoedd gyda muriau oddi amgylch iddynt, ystafell ymolchi a chyfleusterau eraill. Roedd y safle wedi'i gynllunio'n dda, roedd digon o le a ffyrdd yn mynd a dod oddi yno. Nid oedd y ffaith ei fod yn fwy o faint yn ei gwneud yn anos ei redeg. Roedd y defnydd a oedd yn cael ei wneud o neuadd gyffredin wedi gwella - roedd

cyfrifiaduron yno i hyfforddi gyrwyr, dosbarthiadau addysg i oedolion a digwyddiadau plant. Roedd angen rheiliau o hyd ac ardal gaeëdig i gwn.

- Roedd Rover Way yn 30 mlwydd oed. Roedd problemau draenio yno ac roedd mewn ardal amhoblogaidd. O flaen y safle roedd priffordd a gâi ei defnyddio gan lorïau mawr, ac roedd problemau llygredd aer. Roedd diffyg lle, nid oedd unrhyw balmentydd, ardal chwarae i blant nac unrhyw beth ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Ar y cyd â Grwp Safleoedd Sipsiwn Caerdydd, roedd y Gwasanaeth Dylunio Cymunedol wedi cynnal astudiaeth ddichonolrwydd dylunio er mwyn penderfynu ar welliannau a chael rhagor o safleoedd i deuluoedd a moderneiddio cyfleusterau'r safle.Roedd y safleoedd yn cael eu rhedeg ar y cyd â'i gilydd yn yr un ffordd â thai, gyda rhestrau aros, rhestr atgyweirio, cyfnewidfeydd i ddelio â budd-daliadau, rhent ac ati, a swyddfa ar y safleoedd gyda thîm penodedig o ddau swyddog a thri o staff cynnal a chadw.
- Byddai angen mwy o safleoedd i deuluoedd er mwyn i oedolion ifanc allu aros ar yr un safle â'u rhieni. Roedd rhai'n cael eu gorfodi i mewn i dai oherwydd y diffyg safleoedd ac ar restrau aros i gael mynd yn ôl i'r safle. System bwyntiau oedd yn cael ei defnyddio i ddelio â cheisiadau.
- Roedd angen safle parhaol llai. Byddai safle dros dro yn anos ei reoli, ond gan fod llawer o ymwelwyr yn dod i Gaerdydd, yn enwedig cyn y Sioe Frenhinol, gallai ardal i bobl stopio dros dro fod yn ddefnyddiol, cyn belled â'i bod yn cael ei rheoli.

8.3 Dyma oedd prif bwyntiau cyflwyniad Ian Cairn:

- Roedd Cyngor Sir Gwlad yr Haf yn rheoli chwe safle preswyl ac un safle dros dro (am hyd at 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o dri mis). Roedd dros 40 o safleoedd preifat a thri safle a awdurdodwyd ar gyfer Crwydriaid yr Oes Newydd. Sipsiwn a Chrwydriaid oedd y grwp ethnig lleiafrifol mwyaf yn y sir.
- A siarad o brofiad, cyrraedd y safleoedd awdurdodedig oedd y broblem fwyaf a dyna'r sylfaen i ddarparu gwasanaeth priodol mewn meysydd eraill. Roedd gwasanaethau eraill eisoes yn cael eu darparu: roedd y Gwasanaeth Addysg Crwydriaid yn sicrhau bod 100 y cant o blant safleoedd yr awdurdod lleol yn mynd i'r ysgol gynradd; roedd proffesiynolion iechyd yn darparu gwasanaethau ac roedd Sipsiwn a Chrwydriaid yn cyfrannu at astudiaethau iechyd; roedd yr awdurdod lleol yn gwneud y system gynllunio yn agored i fwy o bobl; ac roedd nifer y Sipsiwn a'r Crwydriaid iau a oedd yn ymdoddi i'r gweithlu lleol yn cynyddu.
- Gallai'r awdurdod lleol lobïo cyrff gwneud polisïau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu rhwyd diogelwch o ran safleoedd gan na wnâi unrhyw un arall.
- Dim ond 10 safle dros dro sydd â chaniatâd cynllunio yn Lloegr ac mae dau ohonynt yng Ngwlad yr Haf - un awdurdod lleol ac un preifat. Roedd angen gofal pedair awr ar hugain, 365 diwrnod y flwyddyn er mwyn eu rheoli'n effeithiol, ac roedd angen bod yn llym o ran pa mor hir y câi pobl aros. Roedd lefel ddwys y rheoli yn golygu nad oeddent yn tueddu i fod mor ymarferol yn economaidd.
- Mewn ardal wledig fel Gwlad yr Haf, roedd safleoedd tymor hir â mwy na 10 safle wedi bod yn broblem. Roedd safleoedd llai, dros ardal ehangach, yn well. Roedd angen cynlluniau strwythurol i roi canllawiau i'r gymuned Sipsiwn a Chrwydriaid ac i nodi ardaloedd ar gyfer datblygu safleoedd.
- Roedd lleoliad yn holl-bwysig - does dim pwynt cael safleoedd lle nad yw Sipsiwn a

Chrwydriaid yn mynd. Mae'n bwysig edrych ar y ffyrdd a nodi'r matrics priffyrdd a ddefnyddir a chan faint.
- Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyfrannu tuag at y cyllid ar gyfer safleoedd a thai, fel yr oeddent yn ei wneud ar gyfer y gymuned sefydlog, gan fod Sipsiwn a Chrwydriaid yn cael eu heithrio o hynny ar hyn o bryd.
- Roedd darpariaethau'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) ac adran 7 y 1996 Homeless Act [Deddf y Digartref 1996] yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer crwydriaid ac mae'n rhaid iddynt roi polisïau ar waith i ddelio ag achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl.

8.4 Dyma oedd prif bwyntiau cyflwyniad Frank Milne:

- Hiliaeth dan yr wyneb oedd y broblem fawr: i bob golwg, roedd yn treulio llawer o'i amser yn troi pobl allan am dresmasu. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd llawer o safleoedd carafannau gwyliau nad oedd ar gael i sipsiwn a chrwydriaid eu defnyddio a gellid ymchwilio ymhellach i hyn. Yn y gorffennol, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwrthod yn lân â gwneud darpariaeth er gwaethaf cyfarwyddyd gan Weinidogion, gan fod rheoli safleoedd yn waith drud a'i bod yn anodd eu cynnal a'u cadw.
- Yn aml mae swyddogion cyswllt sipsiwn yn cael eu hynysu ac mae llawer yn ymddeol yn sgil problemau iechyd sy'n gysylltiedig â straen. Mae'r swydd yn perthyn i adran iechyd amgylcheddol yn aml, gan fod tresmasu yn cael ei ystyried yn broblem i gael gwared arni yn hytrach na rhywbeth y mae angen delio â'r hyn sy'n ei achosi. Nid sut mae delio â phroblem sy'n bwysig, ond sut i ddarparu gwasanaethau.
- Nid yw'r atebion i'r problemau yn mynd i newid pethau dros nos ond maent yn rhywbeth tymor hir. Mae angen nodi, datblygu ac ariannu safleoedd newydd.
- Yn anffodus, gellid diffinio lleoliadau safleoedd presennol yn ôl cyfres o feini prawf cynllunio megis: agos at y ffin rhwng awdurdodau lleol, agos at reilffyrdd ac ar bwys gwaith carthffosiaeth a thip sbwriel.
- Mae angen i lywodraeth Prydain a'r Cynulliad ddarparu canllawiau clir ar dresmasu: gellid bod wedi defnyddio arian a wariwyd ar achosion llys drud ar gyfer darpariaeth awdurdodedig addas.

8.5 Dyma'r pwyntiau a godwyd wrth drafod:

- Costau: dylid ystyried costau cyfreithiol achosion tresmasu o'u cymharu â'r arian sydd ei angen ar gyfer darpariaeth briodol. Crybwyllwyd astudiaeth Uned Gyfreithiol Crwydriaid Caerdydd, sef 'At What Cost?' a'i hargymhelliad y dylid archwilio beth yw cost delio ag achosion o wersyllu anawdurdodedig.
- Dylai adolygiad y Pwyllgor ystyried darparu safleoedd dros dro ger safleoedd parhaol. Roedd problemau gyda safleoedd dros dro, ond o'u rheoli'n dda, nid oedd yn anos delio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol nag ar ystâd tai cyngor. Roedd cymunedau Sipsiwn a Chrwydriaid yr un mor amrywiol a hierarchaidd â chymunedau sefydlog. Roedd delio'n effeithiol â phroblemau drwy reoli safleoedd yn dda yn allweddol.
- Nid oedd yn hysbys faint o Sipsiwn a Chrwydriaid a gâi eu gorfodi i mewn i dai oherwydd diffyg

safleoedd addas, nac effaith hynny ar ffordd o fyw Sipsiwn Crwydrol.

- Cyfeiriwyd at 'Teepee Valley' - dylid ystyried hefyd anghenion Crwydriaid yr Oes Newydd yng Nghymru.
- Roedd yn bwysig nodi unrhyw enghreifftiau o arferion da o ran atal gwrthdaro rhwng Sipsiwn a Chrwydriaid a'r gymuned sefydlog wrth gyflwyno safleoedd newydd. Cyfeiriodd Frank Milne at astudiaeth a gynhaliwyd yn yr Alban. Yn Sir Gaerfyrddin roedd pobl wedi'u carcharu am greu bomiau i yrru Sipsiwn Crwydrol i ffwrdd, ond o'i brofiad ef, ofn oedd wrth wraidd problemau rhwng y ddwy gymuned fel arfer, a chaent eu datrys gydag amser.
- Yn y gorffennol roedd ymgynghoriadau ynghylch lleoli safleoedd newydd wedi tueddu i gael eu cadw'n gyfrinachol. Ymgynghori'n agored ar nifer o wahanol leoliadau arfaethedig ar gyfer safle newydd oedd yr unig ffordd ymlaen.

**12.10**

**Eitem 9: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**Papur: EOC-07-02(cofnodion)**

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.
2. Os oedd gan aelodau unrhyw sylwadau ar y tri phapur i'w nodi, gofynnwyd iddynt eu codi yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

**12.10 – 12.25**

**Eitem 10 Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - adroddiad ar gynnydd**

1. Ystyriodd y pwyllgor y cynnydd a wnaed a'r camau nesaf yn y gwaith o baratoi ei adroddiad ar yr Adolygiad Sipsiwn Crwydrol.
2. Croesawyd y fframwaith a awgrymwyd ar gyfer yr adroddiad. Dylai'r adroddiad geisio mynd i'r afael â phryderon difrifol yng nghyd-destun Cymru. Byddai tystiolaeth anecdotaidd ac enghreifftiau o arferion da yn hanfodol a byddai cyfeirnodau a ffynonellau gwybodaeth yn cael eu cynnwys mewn rhestr lyfryddiaeth.
3. Cytunwyd bod yr adroddiad o'r seminar yn Abertawe yn gofnod o'r digwyddiad hwnnw.

Pwyntiau Gweithredu

- Byddai is-grwp yn cael ei benodi â chynrychiolydd o bob plaid i fynd i'r afael â'r gwaith o lunio'r adroddiad.
- Byddai'r adroddiad: ar fformat hawdd ei ddefnyddio, tebyg i'r Adolygiad o Iechyd pobl ifanc; yn barod erbyn diwedd tymor y gwanwyn; yn cynnwys argymhellion penodol sy'n pwyntio'n glir at gamau pellach y bydd angen i'r pwyllgor Cyfle Cyfartal nesaf eu cymryd, sef y pwyllgor a benodir ar ôl etholiadau mis Mai.

- Byddai'r adroddiad o seminar Abertawe yn cael ei gyfieithu a'i ddosbarthu i aelodau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.**